


## Gwybodaeth am ddilyniannu genom cyfan os ydych yn meddwl bod cancer arnoch

Mae'r daflen hon ar gyfer cleifion sy'n cael cynnig prawf dilyniannu genom cyfan ar gyfer cancer, eu gofalwyr ac aelodau o'u teulu.



Mae Dilyniannu Genom Cyfan yn broses lle mae meddyg yn casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i adeiladu a chynnal eich corff.


Mae Dilyniannu Genom Cyfan ar gael drwy'r GIG ar gyfer mathau penodol o ganser lle mae'n cynnig gwell gofal i gleifion.



Gall y prawf ddarparu gwybodaeth ychwanegol am eich diagnosis a'ch triniaeth.


Bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn siarad â chi a byddwch yn gallu gofyn cwestiynau cyn i chi benderfynu cael y prawf ai peidio.

## Beth yw eich genom?



Eich genom yw'r wybodaeth sydd ei hangen i adeiladu'r corff dynol a'i gadw'n iach.

Mae wedi'i ysgrifennu mewn cod o'r enw **DNA**. Mae eich genom yn cynnwys darnau o DNA, a elwir yn **genynnau**.




Mae'r rhan fwyaf o ganserau'n cael eu hachosi gan newidiadau anarferol yng ngenom unigolyn. Mae hyn yn digwydd oherwydd eu ffordd o fyw neu oherwydd eu hamgylchedd.

Weithiau gellir trosglwyddo rhai newidiadau i lawr drwy enynnau unigolyn.

Gallai hyn olygu bod unigolyn dan risg uwch o gael canser.

## Beth all prawf Dilyniannu Genom Cyfan ei ddweud wrthych?



Er bod y prawf Dilyniannu Genom Cyfan yn edrych ar eich genom cyfan, mae'r prawf yn canolbwyntio ar newidiadau mewn genynnau sy'n gysylltiedig â chanser; nid yw'n chwilio am newidiadau mewn genynnau sy'n achosi cyflyrau eraill.

Gallai prawf Dilyniannu Genom Cyfan ar gyfer canser helpu i ddeall:


- Pam y gwnaethoch ddatblygu'r canser
- Y math o ganser sydd arnoch
- Pa driniaethau allai weithio orau ar gyfer eich canser
- A ydych mewn perygl o ddatblygu canserau eraill
- A allai aelodau eich teulu fod dan risg uwch o ddatblygu canser

Os byddwch yn penderfynu cael prawf Dilyniannu Genom Cyfan, bydd eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn trafod hyn gyda chi.



Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, Dilyniannu Genom cyfan ar gyfer Canser, Gorffennaf 2020, v2.0 i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud Dilyniannu Genom Cyfan yn fyw. Mae'r ddogfen hon yn amodol ar reoli fersiynau ac mae'n cael ei diweddarau'n rheolaidd. Cadarnhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn gyfredol drwy gysylltu â'ch Hyb Labordy Genomeg lleol.


## Beth sy'n digwydd mewn prawf Dilyniannu Genom Cyfan?



1. Cesglir sampl o diwmor (sampl o waed neu fêr esgyrn os yw'r prawf Dilyniannu Genom Cyfan ar gyfer canser y gwaed)
2. Cesglir sampl o waed, poer neu groen (os yw'r prawf Dilyniannu Genom Cyfan ar gyfer canser y gwaed, cymerir sampl o'r croen neu boer)
3. Anfonir y samplau i labordy profion geneteg i'w dadansoddi
4. Dychwelir y canlyniadau i'ch gweithiwr gofal iechyd proffesiynol (gweler 'Cael eich canlyniadau').



Mae prawf Dilyniannu Genom Cyfan ar gyfer canser yn cynnwys dilyniannu genom cyfan y tiwmor a sampl o'ch gwaed, poer neu'r croen.



Mae hyn yn rhoi gwybodaeth i gefnogi diagnosis neu benderfynu ar y driniaeth orau.

Os cynigir prawf Dilyniannu Genom Cyfan i chi ar gyfer canser y gwaed, eich sampl gwaed neu fêr esgyrn fydd yn cyfrif fel sampl y tiwmor.



Bydd y prawf yn cael ei gynnal ar sampl o'r tiwmor sydd wedi'i dynnu fel rhan o'ch triniaeth.

Efallai y bydd angen i chi drefnu apwyntiad arall ar gyfer casglu eich sampl gwaed, poer neu'r croen.



canlyniadau

Yna anfonir y samplau i labordy i'w gwirio.

Os byddwch yn penderfynu **peidio** â chael prawf Dilyniannu Genom Cyfan, byddwch yn dal i gael y gofal iechyd gorau posib.

Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, Dilyniannu Genom cyfan ar gyfer Canser, Gorffennaf 2020, v2.0 i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud Dilyniannu Genom Cyfan yn fyw. Mae'r ddogfen hon yn amodol ar reoli fersiynau ac mae'n cael ei diweddarau'n rheolaidd. Cadarnhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn gyfredol drwy gysylltu â'ch Hyb Labordy Genomeg lleol.

## Cael eich canlyniadau



Unwaith y bydd sampl wedi'i chymryd, edrychir arni a chaiff y canlyniad ei anfon at eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Gallai'r canlyniad ddarparu gwybodaeth am eich canser ac opsiynau ar gyfer triniaeth.

Mae canlyniad y sampl tiwmor yn cael ei gymharu â chanlyniad y sampl gwaed, poer neu'r croen.



Gallai canlyniad y prawf ddangos a ydych dan risg uwch o gael canserau eraill ac a allai'r risgiau hynny effeithio ar aelodau eich teulu.

Yn yr achos hwn, efallai y byddwch yn cwrdd ag arbenigwr a fydd yn siarad â chi am eich canlyniadau ac yn gallu trafod sut i reoli eich risg o ganser.



Bydd hyn yn eich helpu i feddwl am sut i siarad ag aelodau eich teulu am y canlyniad.

## Data Am Eich Genynnau



Cedwir yr holl ddata yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Defnyddir eich data yn unol â chyfraith y DU a pholisi'r GIG.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

<https://www.england.nhs.uk/contact-us/privacy-notice/>



Caiff data eich prawf a'ch canlyniadau eu storio mewn cronfa ddata ddiogel ar gyfer Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG – y rhan o'r GIG sy'n goruchwyllo Dilyniannu Genom cyfan.

Gwasanaeth Genomeg Feddygol y GIG, Dilyniannu Genom cyfan ar gyfer Canser, Gorffennaf 2020, v2.0 i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud Dilyniannu Genom Cyfan yn fyw. Mae'r ddogfen hon yn amodol ar reoli fersiynau ac mae'n cael ei diweddu'n rheolaidd. Cadarnhewch eich bod yn defnyddio'r fersiwn gyfredol drwy gysylltu â'ch Hyb Labordy Genomeg lleol.



Dim ond staff sydd wedi'u cymeradwyo all weld eich data.

## Defnyddio data at ddibenion yswiriant

Ni chaiff data eu rhannu â chwmnïau yswiriant heb i chi gytuno.



Efallai y bydd cwmnïau yswiriant yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth feddygol amdanoch chi a'ch teulu.



## Defnyddio data at ddibenion ymchwil

Mae data iechyd a roddwyd gan filiynau o gleifion eraill y GIG wedi helpu i ddatblygu meddyginiaethau a thriniaethau newydd.



Mae gan bob claf yr opsiwn i roi eu data i Lyfrgell fel y gall ymchwilwyr sydd wedi'u cymeradwyo ddefnyddio'r data hynny.

Os byddwch yn dewis gwneud hyn, bydd eich data yn helpu ymchwilwyr i ddatblygu triniaethau newydd.



I ddysgu rhagor am sut y gall eich data helpu ymchwil, ewch i wefan Genomeg Lloegr: <http://www.genomicsengland.co.uk>.



## Gwybodaeth bellach

Dysgwch ragor am Ddilyniannu Genom cyfan gan y sefydliadau hyn:

<http://www.nhs.uk/conditions/genetic-and-genomic-testing>